


EAAEE5002/C

Portffolio Arfer Adfyfyriol



(Ffynhonell: Southampton Solent University, 2012)

Cynnwys:

Elfen 2: Log Adfyfyriol (tudalen 3-5)

Elfen 3: Papur Briffio (tudalen 6-7)

Elfen 4: Cynllun datblygiad personol (tudalen 8-10)

Rhestrau Cyfeirnod: (tudalen 11-13)

Elfen 2 Log adfyfyriol – Element 2 Reflective log

Disgrifiad byr o'r gweithgaredd
Gweithgaredd categoreiddio, le gaiff grwpiau o blant fynd allan i gasglu deunyddiau naturiol o'r amgylchfyd tu allan a'i gasglu i mewn i focs. Yna unwaith mae'r grŵp yn hapus beth maent wedi casglu gallant fynd ati i bwysu mesur y gwrthrychau yna mae disgwyl iddynt roi'r rhain i mewn i gategoriau gwahanol yn ôl siâp, maint neu bwysau.
Nod/Amcan y gweithgaredd
Mae gweithgaredd yma wedi cael ei hanelu tuag at blant o flwyddyn 2. Nod y gweithgaredd yw bod y plant yma yn medru adnabod gwahanol siapau wrth ddefnyddio gwrthrychau naturiol yn lle siapau plastig tu fewn i'r dosbarth. Hefyd mae disgwyl iddynt fod yn gallu defnyddio deunydd pwysu a mesur i ddod o hyd i ganlyniadau i gategoreiddio'r gwrthrychau ai nodi mewn tabl.
Eich rôl chi
Rôl yr oedolyn yn y gweithgaredd yma oedd arsylwi ar y plant wrth iddynt gymryd rhan yn y gweithgaredd. Fe gafodd y plant y rhyddid i ddewis y gwrthrychau maen nhw yn ei hoffi heb unrhyw adborth o'r oedolyn. Os oedd unrhyw unigolyn yn cael trafferth cwblhau'r gweithgaredd neu ag unrhyw anawsterau roedd oedolyn ar gael i helpu pwysu a mesur y gwrthrychau efo nhw. Fe roedd yr oedolyn yn cefnogi pob plentyn wrth iddynt wneud y dasg.
Agweddau cadarnhaol – pam?
Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015) un deilliant dysgu sydd yn cael ei gynnwys yn y Cyfnod Sylfaen ar ran rhifedd yw, bod disgwyl i'r plant datblygu i fod yn fedrus i ddatblygu ymresymu rhifyddol, hefyd mae disgwyl iddynt ddefnyddio sgiliau rhif ar allu i ddefnyddio sgiliau mesur a defnyddio ei sgiliau data. Wrth wneud y gweithgaredd ar fesur a defnyddio sgiliau data mae'n gysylltiedig â deilliant dysgu felly mae hyn yn agwedd cadarnhaol gaeth ei ddangos.
Agweddau heriol – pam?

Gan oedd y gweithgaredd wedi cael ei wneud yn yr awyr agored roedd yn heriol oherwydd y tywydd. Fe roedd rhaid gwneud yn siŵr roedd yn ddiogel i'r disgyblion cymryd rhan yn y gweithgaredd tu allan. Agwedd arall oed yn heriol oedd, roedd gan yr unigolion y rhyddid o ddewis y gwrthrychau a defnyddwyr. Gan fod y gwrthrychau yma yn rhai naturiol oedd allan ar y buarth roedd rhaid i'r oedolyn arsylwi beth oeddynt yn dewis oherwydd roedd y risg o rain fod yn bigog neu yn siarp a gall y plant fod wedi cael ei brifo, felly roedd rhaid gwneud yn siŵr bod y gwrthrychau a defnyddwyr yn rhai rhesymol.

Pa wybodaeth arddangoswyd?

Fe arddangoswyd gwybodaeth ar bwysigrwydd o gymryd risg wrth wneud y dasg. Dangosodd yr oedolyn bod yn iawn i gymryd risg wrth wneud y gweithgaredd yma, wrth chwarae efo planhigion gwyllt a bod yn iawn i'w wneud. Arddangoswyd gwybodaeth ar gyfer y planhigion ar fyd natur oedd o amgylch wrth i'r plant chwilio am wrthrychau oedd yn yr awyrgylch allanol. Fe ddangoswyd gwybodaeth am yr hyn oeddynt yn ei ddefnyddio wrth gyfathrebu efo nhw a disgrifio beth oedd y pethau gwahanol oeddynt yn ei ddefnyddio. Yn ogystal ag hyn fe drafodwn y planhigion a'i swyddi yn y byd natur, risgiau sydd gan rhai a pa rhai i gadw i ffwrdd o. Hefyd trafodwyd yr anifeiliaid sydd yn byw yn y tu allan ar bwysigrwydd o roi pob gwrthrych nôl yn yr un man gan ddaw dyna le mae anifeiliaid yn byw.

Pa sgiliau arddangoswyd?

Wrth i'r plant gwneud y dasg yma yn annibynnol roedd yr oedolyn yn gallu rhoi syniadau iddynt ar ba fath o siapau i archwilio yn yr amgylchfyd, i helpu rhoi ar y llwybr cywir. Hefyd fe wnaeth yr oedolyn dangos y sgil o rannu syniadau wrth dangos a gwneud yr hyn sy'n ddisgwyliedig ac yna roedd y plant yn gallu dilyn nhw fel esiamp. Hefyd fe wnaeth yr oedolyn dangos y sgil o gyfathrebu wrth wneud y dasg. Wrth wneud y dasg roedd yn holl bwysig i'r unigolion o fewn y grŵp cyfathrebu efo ei gilydd i drafod siapau'r gwrthrychau, pwyso a dod i benderfyniad o ba gategori mae'r gwrthrychau yn gysylltiedig a.

Pa werthoedd arddangoswyd?

Trwy gydol y gweithgaredd yma roedd yr oedolyn yn gwranddo ar lais y plentyn ar bob adeg wrth iddynt ddisgrifio'r hyn maent yn gwneud ac esbonio beth maen nhw yn ei gredu am y gwrthrychau maent wedi casglu. Roedd yr oedolyn yn ymddangos ymagwedd ofalgar wrth i'r plant cymryd rhan yn y dasg. Wrth i'r dasg cael ei wneud mewn grwpiau o bedwar, fe wnaeth un plentyn o un grŵp gweld yn anodd cwblhau'r dasg a oedd yn ddisgwyliedig wrthynt, felly fe wnaeth athrawes defnyddio ymagwedd ofalgar wrth helpu'r unigolyn i gwblhau'r dasg heb wneud iddo deimlo'n drist neu ddim yn cael ei adael allan o'r hyn oeddynt yn ei wneud. Hefyd wnaeth yr oedolyn dangos empathi tuag at y plant wrth iddynt leisio'r hyn yr oeddynt yn ei chredu ac roedd yr oedolyn yn gefnogol ar hyn dewiswyd yr unigolion gwneud.

Beth allai cael ei wneud yn wahanol? Pam?

Gall y gweithgaredd yma fod wedi cael eu gwneud tu fewn i'r ystafell ddosbarth i leihau'r risg o'r tywydd yn amharu ar y gweithgaredd neu leihau'r risg o ddamweiniau. Mae Harriman (2006) yn dweud fod plant yn gallu dysgu yn fwy o weithio efo'r tywydd neu os byddant ddim yn fe fydden nhw yn colli allan ar brofiadau newydd. Wrth wneud y dasg yma eto gall y plant defnyddio siapau plastig 2D neu 3D i wneud y gweithgaredd, allant ddysgu yn union beth yw pob siâp, sawl ymyl, cornel neu arwyneb sydd ganddynt. Fydd hyn yn ddelwedd weladwy well iddynt oherwydd gall fod yn anodd dod o hyd i siapau mewn gwrthrychau naturiol.

Elfen 3- Papur Briffio

Pwysigrwydd Arfer Adfyfyriol

Beth yw arfer adfyfyriol?

Yn ôl Bright Knowledge (2018) mae arfer adlewyrchol yn ffordd o astudio eich profiadau eich hun i wella'r ffordd rydych chi'n gweithio. Mae'n ddefnyddiol iawn i weithwyr iechyd proffesiynol sydd am barhau i ddysgu trwy gydol eu bywydau.

Mae'r weithred o fyfrio yn ffordd wych o gynyddu hyder a dod yn weithiwr proffesiynol mwy rhagweithiol a chymwysedig.


Dylai cymryd rhan mewn arfer adfyfyriol helpu i wella ansawdd y gofal a roddwch a chau'r bwlch rhwng theori ac ymarfer (Bright Knowledge, 2018).

Mae yna wahanol fathau o arfer adfyfyriol ac enghreifftiau sydd yn helpu unigolion i wneud hyn.

Mae'r Open University (2018) yn cefnogi'r hyn mae Bright Knowledge (2018) yn dweud wrth am arfer adfyfyriol yn cyfeirio at yr ystyriaeth weithredol, barhaus a gofalus o unrhyw gred neu'r math o wybodaeth sydd ohoni yng ngoleuni'r seiliau sy'n ei gefnogi. Mae hyn yn golygu y bydd gennych ymagwedd holi, byddwch yn ystyried pam fod pethau fel y maent, a sut y gallent fod (The Open University, 2018).

Pwysigrwydd arfer adfyfyriol

Mae arfer adfyfyriol yn rhan bwysig o'ch ymarfer ac fe fydd o fudd i'r plant yn eich lleoliad chi a'i rhieni neu ofalwyr y plant ifanc. Byddwch hefyd yn elwa'n bersonol ac yn broffesiynol. Bydd ymarfer adlewyrchol eich cefnogi i gynnal a gwella'n barhaus. Trwy adfyfyrio a gwelliant parhaus, byddwch yn cyflawni canlyniadau gwell i blant. Meddwl am rai o'r manteision eraill y gallai hyn eu cynnwys ar eu cyfer, bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu, mae eu hunan-barch yn cael ei gynyddu ac amgylchedd priodol, galluogi, rhyngweithiol gan gynnwys adnoddau addas ar eu cyfer a chyfleoedd dan do ac allan (Pacey, 2016).



Wrth i athro neu athrawes dosbarth adfyfrio ar y gwaith sydd yn cael ei gyflwyno i'r pant yn ddyddiol, mi fydd yn gwella strwythur neu gyflwyniad y wers. Felly wrth wneud hyn fe fydd yn fuddiol i'r plant oherwydd byddant yn derbyn yr addysg gorau posib gan yr athro. Mae adfyfrio yn cael ei ddefnyddio i wella perfformiadau yn enwedig mewn addysg (Steiner et al, dim dyddiad).

Reflection, term to describe behaviours involving feeling and thinking about thoughts and experiences, in order to identify issues and to develop new understandings
(Reed a Canning, 2010, t.10)

Plant yn adfyfrio

Mae gwahanol fathau o arfer adfyfiriol mae yna gylchred adfyfiriol Gibbs yn cael ei ddisgrifio fel model ailadrodd (Lia, 2016). Mae hyn yn cael ei gefnogi gan Montessori (Mooney, 2013) gan oedd Montessori yn credu roedd plant yn dysgu orau wrth wneud a thrwy ailadrodd. Mae yna gylchred arall a chaeth eu creu gan Kolb, sef model sydd yn cael ei ddisgrifio fel cylchred o ddysgu ar ôl gwneud rhywbeth (Lia, 2016). Mae hyn yn gysylltiedig â theori Piaget a Vygotsky gan ei bod nhw yn credu'n gryf mae gwybodaeth yn cael ei adeiladu o brofiadau personol (Mooney, 2013).

Pwysigrwydd arfer adfyfiriol

Bydd yn barhaus i fyfrio ar eich ymarfer, gwella eich sgiliau wrth wella eich hyder a'ch cymhelliant, eich helpu i ganolbwyntio ar eich practis, gan nodi anghenion datblygu proffesiynol a'ch cefnogi i osod targedau. Bydd hyn wedyn yn cyfieithu i welliannau ar gyfer eich lleoliad, gan eich gwneud yn fwy effeithlon, gan wella'ch enw da, gan eich galluogi i ddangos canlyniadau yn gliriach (Pacey, 2016).

Mae adlewyrchiad yn bwysig oherwydd yr holl fentrau, datblygiadau, polisïau ac ymarfer. Mewn gwirionedd, heb fyfrio ar ymarfer, dim ond mecanwaith swyddogaethol sydd gennym i wella gwybodaeth, ystyried mentrau newydd, diffinio a mireinio'r arfer ac ymateb i newid. mae disgwyliad clir bellach i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar ystyried yn ofalus a myfrio ar y ffordd y maent yn ymgysylltu â phlant a theuluoedd (Reed a Canning, 2010).

Effaith ar blant ifanc

Dyfynnwyd Sobral yn Mann et al (2007) yn awgrymu y gall i allu ffurfio cymdeithasau ac integreiddio gwybodaeth arwain at ddyfnach dysgu, gan hwyluso myfyrwyr sy'n cael profiad dysgu mwy cadarnhaol. Gall arfer adlewyrchol hefyd wella perthnasoedd ymhlith athrawon a dysgwyr ac ansawdd addysgu.

Elfen 4 Cynllun Datblygu Personol

gwydd ar yfer atblygiad ellach /ychwanegwoc fanylion)	Pam?	Sut?	Pwy/Ble?	Pryd?
1. Gwybo daeth -Mynd ymlaen i fod yn athrawes	Angen i mi wneud cwrs ychwanegol i ddatblygu i fod yn athrawes yn y dyfodol. Hoffwn fynd ymlaen a gwneud blwyddyn ychwanegol yn gwneud cwrs Graduate Teacher Programme (GTP) (Primary). Mae'n hanfodol fy mod i yn gwneud y cwrs yma neu ni allwn sicrhau'r dyfodol dwi am.	Hoffwn wneud y cwrs GTP o fewn yr ysgol dwi'n gweithio ynddo ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn cyflogi athrawon nad ydynt wedi'u gymhwyso eto, ac mewn partneriaeth â Chanolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn eu cefnogi drwy raglen hyfforddi unigol sy'n arwain at statws athro cymwysedig.	Y person all helpu i gwblhau'r dymuniad yma fydd Prif Athro'r Ysgol Gynradd dwi'n gweithio yn ar hyn o bryd.	Hoffwn ddechrau'r cwrs yma Medi ar ôl i mi raddio ar y cwrs Blynnyddoedd Cynnar.
2. Gwybo daeth -Cwrs Cymroth Cyntaf	Angen i mi wneud y cwrs yma gan fy mod i yn gweithio efo plant ifanc yn ddyddiol. Hoffwn gael y wybodaeth sydd ei hangen i ddelio efo sefyllfaoedd heriol a gall helpu person sydd wedi cael ei hanafu. Fe fydd y cwrs yma yn fuddiol i mi gan fod plant yn cwmpo ac yn cael anaf yn ddyddiol.	Fe fyddai yn gallu siarad efo'r ysgol i weld os fyddant yn cynnal sesiwn ble gall hyfforddwr dod i mewn ac yna hyfforddi aelodau o staff. Mae'r cwrs yma yn gallu cael ei wneud o fewn un diwrnod neu dros 2 ddiwrnod.	Mae yna gwmni o'r enw Life Line Training & Operations sydd yn gallu dod i'r ysgol a rhoi'r hyfforddiant i ni fel athrawon.	Hoffwn fod wedi mynychu'r cwrs Cymorth Cyntaf a'i gyflawni cyn diwedd y flwyddyn academaidd yma.
3. Sgiliau -laith a Llythrennedd	Hoffwn ddatblygu fy sgiliau laith a Llythrennedd er mwyn i mi allu modelu'r iaith gywir o fewn yr ysgol i'r disgyblion .	Mae sesiynau datblygu sgiliau laith a Llythrennedd wedi bod yn digwydd dros y flwyddyn academaidd yma o fewn yr ysgol, felly fe fyddaf yn mynychu pob un o rain i gael y gorau allan o ohonynt.	Mae'r Prif Athro wedi trefnu fod sesiynau yn cael ei ddysgu ar ôl ysgol i staff wella ar y sgil yma, felly fe fyddaf yn ei mynychu.	Hoffwn fod wedi mynychu pob sesiwn sydd ar gael ar ôl ysgol drwy gydol y flwyddyn academaidd 2017/2018.
4. Sgiliau - Cyfarthrebu yn	Dwi yn gobeithio fy mod i yn gallu datblygu fy sgiliau cyfathrebu yn effeithiol, gan fy mod i yn gweithio efo dîm o	Gallaf gwblhau datblygu'r sgil yma drwy fynychu a sesiynau sydd yn cael ei gynnal fel rhan o	Gall y Prif Athro'r ysgol helpu mi gyflawni'r dymuniad yma wrth drefnu sesiwn fydd yn	Hoffwn fy mod i wedi cwblhau datblygu'r sgil yma erbyn i mi raddio yn y flwyddyn 2019.

effeithiol	staff yr ysgol a hefyd yn cyfathrebu efo rhieni plant yr ysgol.	ddatblygu staff yr ysgol .	datblygu a chyfoethogi'r sgil yma.	
5. Gwerth oedd - Gwirfoddoli	Hoffwn wirfoddoli mewn meithrinfa er mwyn i mi ddatblygu sgiliau o weithio efo plant o wahanol oedrannau a fydd yn fy helpu i fod yn athrawes yn y dyfodol. Hefyd fe fydd yn fy helpu sut i ddelio efo plant o oedran gwahanol.	Gallaf fynd at y feithrinfa leol neu i'r un sydd wedi cael ei leoli tu fewn i'r ysgol dwi'n gweithio yn a gofyn am amser i wirfoddoli am gyfnod o amser.	Gall rheolwr y feithrinfa fy helpu i sicrhau fy mod i yn cyflawni'r hyn a hoffwn wneud.	Gallaf gwblhau hyn drwy fynd i'r feithrinfa o fewn y gwyliau'r haf.
6. Gwerth oedd - I weithio mewn tîm	Dwi am ddatblygu'r gwerth o weithio mewn tîm er mwyn gweithio yn fwy proffesiynol efo aelodau arall o staff. Wrth i mi ddatblygu'r gwerth yma yn bellach allaf ddangos disgyblion yr ysgol sut i weithio mewn tîm yn llwyddiannus.	Gallaf fynychu a chwrs bondio tîm efo pobl eraill i wella fy hun drwy wneud hyn. Wrth wneud y cwrs yma efo pobl eraill fe fydd yn fy helpu i sut i ddelio efo pobl eraill wrth weithio efo nhw.	Gallaf ymchwilio i mewn i ble neu pwy sydd yn cynnal grwpiau datblygu gwerthoedd o weithio fel tîm a'i chysylltu efo nhw i weld pryd mae'r sesiynau yma yn cael ei gynnal.	Hoffwn ddatblygu y gwerth yma yn flwyddyn olaf y cwrs Blynnyddoedd Cynnar a'i chyflawni erbyn Haf 2019.

Rhestr Cyfeirnodï'r Cyflwyniad

Leeds Beckett University. (2015) 'Models for structuring reflection: Kolb's Learning Cycle' ar gael ar <https://skillsforlearning.leedsbeckett.ac.uk/preview/content/models/02.shtml>

[Darllenwyd 8 o Fehefin 2018].

Lia, P. (2016) 'Using Gibbs' Reflective Cycle' ar gael ar <https://www.kcl.ac.uk/campuslife/services/disability/onlineresources/StudyGuides/USING-GIBBS-REFLECTIVE-CYCLE-IN-COURSEWORK-DEC-2016-P-LIA.pdf>

[Darllenwyd 8 o Fehefin 2018].

McLeod, S. (2017) 'Kolb- Learning Styles' ar gael ar <https://www.simplypsychology.org/learning-kolb.html> [Darllenwyd 8 o Fehefin 2018].

Mooney, C, G. (2013) *Theories of childhood, An introduction to Dewey, Montessori, Erikson, Piaget & Vygotsky*. St. Paul: Redleaf Press.

Steiner, Th., Sonntag, H, G. a Bokonić, D. (dim dyddiad) 'Manual of Teaching and Learning in Medicine' ar gael ar <http://www.bhmed-emanual.org/introduction>

[Darllenwyd 8 o Fehefin 2018].

Rhestr Cyfeirnodï Efen 2, 3 a 4

Bright Knowledge. (2018) 'What is reflective practice?' ar gael ar:

<https://www.brightknowledge.org/medicine-healthcare/what-is-reflective-practice>

[Darllenwyd 19 o Fehefin 2018].

Harriman, H. (2006) *The Outdoor Classroom: A Place to learn*, Wiltshire: Corner to learn Limited.

Llywodraeth Cymru. (2015) 'Fframwaith y cyfnod sylfaen', ar gael:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf> [Darllenwyd 17 o Fehefin 2018].

Loughran, J, J. (2002) *Effective reflective practice*, London: SAGE Publishers.

Lia, P. (2016) 'Using Gibbs' Reflective Cycle' ar gael ar

<https://www.kcl.ac.uk/campuslife/services/disability/onlineresources/StudyGuides/USING-GIBBS-REFLECTIVE-CYCLE-IN-COURSEWORK-DEC-2016-P-LIA.pdf>

[Darllenwyd 8 o Fehefin 2018].

Mann, K., Gordon, J. a MacLeod, A. (2007) 'Reflection and reflective practice in health professions education: a systematic review' Health Sci Educ, Vol unknown, November. [on-line] ar gael ar

https://s3.amazonaws.com/academia.edu.documents/45892714/Mann_K_Gordon_J_MacLeod_A_Reflection_and_reflective_practice_in_health_professions_education_a_systematic_review.pdf?AWSAccessKeyId=AKIAIWOWYYGZ2Y53UL3A&Expires=1529528332&Signature=rtHHMwyXDwEw5ThktIEUzLH%2F48U%3D&response-content-disposition=inline%3B%20filename%3DReflection_and_reflective_practice_in_health_professions_education_a_systematic_review.pdf [Darllenwyd ar 19 o Fehefin 2018].

Mooney, C, G. (2013) *Theories of childhood, An introduction to Dewey, Montessori, Erikson, Piaget & Vygotsky*. St. Paul: Redleaf Press.

Pacey. (2016) 'Supporting members to provide the highest standards of care and learning for children' ar gael ar:

[https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20\(PDFs\)/PG04-self-reflective-practice.pdf](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG04-self-reflective-practice.pdf) [Darllenwyd 19 o Fehefin 2018].

Reed, M. Canning, N. (2010) *Reflective Practice in the Early years*, London: SAGE Publications Ltd.

Southampton Solent University. (2012) Llun: 'Reflective thinking and writing' ar gael ar <https://learn.solent.ac.uk/mod/book/view.php?id=2732&chapterid=1112> [Darllenwyd ar 19 o Fehefin 2018].

Steiner, Th., Sonntag, H, G. a Bokonić, D. (dim dyddiad) 'Manual of Teaching and Learning in Medicine' ar gael ar <http://www.bhmed-emanual.org/introduction> [Darllenwyd 8 o Fehefin 2018].

The Open University. (2018) 'Learning to teach: becoming a reflective practitioner' ar gael ar <http://www.open.edu/openlearn/education/learning-teach-becoming-reflective-practitioner/content-section-2.1> [Darllenwyd ar 19 o Fehefin 2018].

The University of Sheffield. (2018) Llun: 'Reflective Practice' ar gael ar <https://www.sheffield.ac.uk/ssid/301/study-skills/university-study/reflective-practice> [Darllenwyd ar 19 o Fehefin 2018].